Yr Ysbryd Glân yn dod ar y Pentecost

Actau 2: 1-13

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Yr Ysbryd Glân yn dod ar y Pentecost		
1	Roedd Iesu wedi mynd yn ôl i'r Nefoedd. Felly ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd y disgyblion gyda'i gilydd yn y tŷ yn Jerwsalem ac yn aros yno fel dwedodd Iesu.		
2	Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Yr Ysbryd Glân oedd e, wedi cael ei anfon gan Dduw		
3	Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân. Roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw.		

4	Roedd eu calonnau yn llawn o gariad Duw. Roedden nhw'n moli'r Arglwydd.	
5	Dyma pawb oedd wedi cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny. Roeddent am i bawb nabod Iesu!!	
6	Aethon nhw allan a siarad â'r bobl o wledydd eraill, roedd pawb wedi syfrdanu ac yn dweud, "Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!" Deallodd miloedd o bobl y newyddion da fod Iesu yn fyw.	
7	Daeth llawer i gredu a dilyn Iesu ar ôl dydd y Pentecost (pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w bywydau).	
8	cyfieithiad www.beibl.net	